# Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

## Cofnodion(EOC(3)-02-07)

**Dyddiad: Dydd Iau 27 Medi 2007**
**Amser: 9.30 - 11.15**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

### Aelodau Cynulliad yn Bresennol

Ann Jones (Cadeirydd), Dyffryn Clwyd
Angela Burns, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
Christine Chapman, Cwm Cynon
Mike German, Dwyrain De Cymru
Mark Isherwood, Gogledd Cymru
Bethan Jenkins, Gorllewin De Cymru
Helen Mary Jones, Llanelli
Lynne Neagle, Tor-faen
Joyce Watson, Canolbarth a Gorllewin Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Claire Morris, Clerc
Sarah Bartlett, Dirprwy Glerc
Gwyn Griffiths, Cynghorydd Cyfreithiol
Denise Rogers, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Kathryn Potter, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

### Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon

1.1 Estynnodd y cadeirydd groeso i aelodau'r pwyllgor ac i'r cyhoedd. 1.2 Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Mick Bates, a chymerwyd ei le gan Mike German.

### Eitem 2: Trafodaeth ar y papur cwmpasu ar gyfer ymchwiliad craffu'r pwyllgor i hygyrchedd canolfannau pleidleisio yng Nghymru

**Papur: EOC(3)02-07(p.1)** 2.1 Cytunodd yr Aelodau ar y cylch gorchwyl a chynigiwyd enwau tystion, yn cynnwys Anabledd Cymru.
**Camau i'w cymryd:**

Y clerc i wahodd Anabledd Cymru i roi tystiolaeth gerbron y pwyllgor.

### Eitem 3: Trafodaeth ar y papur cefndir i ymchwiliad arfaethedig y pwyllgor i faterion sy'n effeithio ar weithwyr mudol

**Papur: EOC(3)02-07(p.2)** 3.1 Bu'r Aelodau'n trafod y prif faterion a chytunwyd ar yr hyn y byddai'r ymchwiliad yn canolbwyntio arno.
**Camau i'w cymryd:**

Y clerc i lunio cylch gorchwyl a rhestr ymgynghori i'w ddosbarthu i Aelodau cyn y cyfarfod nesaf.
Y cadeirydd i ysgrifennu at Weinidogion yn gofyn am ddiweddariad ar y polisïau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru sy'n effeithio ar weithwyr mudol.

### Eitem 4: Blaenraglen Waith

**Papur: EOC(3)02-07(p.3)** 4.1 Bu'r Aelodau'n ystyried y flaenraglen waith ddrafft. **Camau i'w cymryd:**

Y cadeirydd i ysgrifennu at y Gweinidog i geisio diweddariad ar ymgyrch y Llywodraeth am gyflog cyfartal.
Aelodau i roi gwybod i'r clerc pe byddai diddordeb ganddynt eistedd ar bwyllgor gwaith ar gyflogau cyfartal.
Y clerc i gynnwys cam-drin domestig yn y flaenraglen waith.
Y clerc i gynnwys trafodaeth gyda'r Cyngor Ffoaduriaid yn y flaenraglen waith.
Y cynghorydd cyfreithiol i ddarparu nodyn i Aelodau ar sefyllfa gwahoddedigion sefydlog sy'n mynychu cyfarfodydd pwyllgor yn y Trydydd Cynulliad.
Y clerc a'r cadeirydd i drafod y mecanweithiau ar gyfer monitro adroddiadau ac argymhellion.
Y clerc i ychwanegu Prif ffrydio Cydraddoldeb yng Ngwaith y Cynulliad fel eitem i'w drafod gyda'r Gweinidog ar 6 Rhagfyr.

### Eitem 5: Ystyried yr opsiynau mewn perthynas â sefydlu pwyllgor i drafod materion yn ymwneud â phlant a phobl ifanc

**Papur: EOC(3)02-07(p.4)** 5.1 Bu'r pwyllgor yn ystyried y dewisiadau posibl ar gyfer sefydlu pwyllgor ar gyfer materion yn ymwneud â phlant a phobl ifanc. **Camau i'w cymryd:**

Y cadeirydd i ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i ddatgan y byddai'r pwyllgor yn dymuno gweld pwyllgor yn cael ei sefydlu yn ei rinwedd ei hun ar gyfer materion yn ymwneud â phlant a phobl ifanc.